EISTEDDFOD CFFI CYMRU – 2011 - WALES YFC EISTEDDFOD

Cystadleuaeth: Alaw i gydfynd a geiriau buddugol 2010 /
Competition: Tune to accompany winning words of 2010

Glyndŵr

Mae 'na dwrw yn y Berwyn
M 'na gyffro yn y gwynt
Mae milwyr Owain eto
Yn cychwyn ar eu hynt
Fe'u gwelwch ar y llethrau
Fe'u clywch ar yr awel glir
Mae Byddin Rhyddid Cymru
Yn ymdaith drwy y tir.

Mae'r don a'r afon Dyfi
A'r Banw ar ei thaith
Yn sisial eu cefnogaeth
I'r milwyr gyda'u gwaith
Fe gyfyd cân ehedydd
Fel saeth o'r gweundir llwm
Gan alw ar bob Cymro dewr
I ddilyn sŵn y drwm.

Awn draw i dre Machynlleth
Awn yn un dyrfa lon
A mynnwn Senedd newydd
Deilwng o'r Gymru hon
Senedd a'i chred mewn rhyddid
Senedd lle nad oes brad
Senedd rydd i ni'r grym a'r haul
I siarad iaith ein gwlad.

Cytgan:
Dewch dilynwn Owain
Dewch i'w rengoedd ef
Dewch, cawn hawlio Cymru'n ôl
Dewch yn un fintai gref.